PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 158 Rhif 30 Gorffennaf 24, 2025 50c.

## Gareth Edwards

Trist iawn oedd gennym glywed am farwolaeth y Parchg Gareth Edwards ar ôl cyfnod o gystudd. Bu'n weinidog yn Eglwys Bresbyteraidd Cymru mewn nifer o ofalaethau, yn Ysgrifennydd Cyffredinol gyda'r enwad hwnnw cyn cael ei sefydlu'n weinidog gyda'r Annibynwyr ar Gapel Coffa, Cyffordd Llandudno yn 2010 lle bu'n fugail hyd 2023. Cydymdeimlwn gyda'i wraig Margaret, y plant Alun a Gwenith a'u teuluoedd, ei frodyr Meurig, Bryn ac Arwel a'i chwaer Nia. Diolchwn i'r Arglwydd amdano ac am ei waith dygn dros Ei Deyrnas. Bydd teyrnged lawn iddo maes o law yn *Y Tyst*.

# Pen-blwydd Hapus

***Dathlu 200 mlynedd eglwys Pencae, Llanarth, Ceredigion***

Cafwyd gwasanaeth arbennig iawn yng nghapel Pencae ar ddydd Sul 15 Mehefin, sef gwasanaeth i ddathlu 200 mlynedd yr eglwys, 1825–2025. Croesawyd pawb i'r oedfa gan Mrs Enid Jones a chymerwyd at y rhannau arweiniol gan gynaelodau ysgol Sul Pencae. Cafwyd hefyd eitemau penigamp gan blant presennol yr ysgol Sul. Traddodwyd anerchiad pwrpasol ac amserol gan Mr Nigel Davies.




Paratowyd cacen arbennig ar gyfer yr achlysur ac fe'i torrwyd gan athrawon yr ysgol Sul sef Elin, Enid, Ruth a Catrin. Ar ddiwedd yr oedfa a mwynheuodd pawb ddished o de a darn o'r gacen ddathlu flasus. Cafodd y plant de parti bach hwyliog hefyd! Braf oedd gweld y capel yn llawn ar gyfer yr oedfa a hyfrydwch oedd gallu edrych ar hen luniau a dogfennau gan hel atgofion a chael clonc ar ddiwedd y gwasanaeth. Roedd cyfle hefyd i brynu cwpanau'r dathlu ac os oes diddordeb gan unrhyw un i brynu un, cysylltwch â Mrs Mineira Davies neu unrhyw un o swyddogion yr eglwys. Maent ar werth am £10 yr un. Diolch i Mrs Enid Jones am baratoi'r gwasanaeth ac i Mrs Elin Morgan am ei gwaith wrth yr organ. Diolch hefyd i bawb fu ynghlwm â pharatoi a gweini'r lluniaeth.




Ar 14 Medi cynhelir Cymanfa'r Dathlu yng nghapel Pencae a bydd croeso cynnes i bawb.

**Catrin Bellamy-Jones**



## Cân Dathlu Daucanmlwyddiant Eglwys Pencae

Amser dathlu
Croeso mawr i chi,
Daucanmlwyddiant
Yn ein capel ni,
Canu emyn
Gwna pob plentyn
Diolch wnawn i Ti.

Plant bach hapus
Sy'n dod i'n hysgol Sul
Gweddi'r Arglwydd
Ac yna tynnu llun,
Stori Feiblaidd
Yn rheolaidd
Diolch wnawn i'r Iôr.

Cwpan Denman
Siôn Corn a pharti braf.
Cwis ac adnod
A thrip bach yn yr haf,
Diolch Iesu
Am ein caru
Ysgol Sul Pencae.

Ar y dôn 'Braf yw Bwyta'
Geiriau: Enid Jones ac Esyllt Bryn

## Capel Pencae

Ar gyrion pentref Llanarth
Mae cwmwd bach Pencae,
Ffermydd, man addoli
A dwrned clòs o dai.

Ar dir a oedd yn perthyn
I fferm Pant'rhendy gynt
Saif capel Pencae'n gadarn
Wyneba rhu y gwynt.

Evan James y ffermwr
A roes y llecyn 'ma –

*parhad ar dudalen 2*

# Adroddiad Blynyddol yr Ysgrifennydd Cyffredinol



*Dyma ail ran Adroddiad Blynyddol y Parchg Dyfrig Rees a draddodwyd yng Nghyfarfodydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn Nant Gwrtheyrn.*

### Ffynhonnau Byw

Yn Nhrefforest llynedd, nodwyd bod £25,000 wedi ei gasglu tuag at Apêl Ffynhonnau Byw. Erbyn diwedd y flwyddyn cododd hwnnw i £71,000 a byddwch yn cofio gweld lluniau ac adroddiad yn *Y Tyst*, am gyflwyno'r siec i Gymorth Cristnogol adeg y Cyngor ym mis Mawrth. Y mae hyn yn destun balchder a llawenydd ac mae'r diolch i chi, yn eglwysi ac aelodau a gyfrannodd mor hael, â hynny mewn cyfnod pan fo'r galw elusennol yn ein cyrraedd o bob cyfeiriad. Diolch yn fawr i Robin Samuel am fod yn gydlynydd i'r apêl ac am ei hebrwng ar ei thaith.

### CWM: ymweliad

Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn fu ymweliad cwmni o wragedd, o deulu CWM â Chymru; ymgeiswyr am y weinidogaeth oeddent, ac ar un o raglenni CWM, New Face dan arweiniad y Parchg Dr Amelia Koh Butler, Swyddog Hyfforddiant CWM. Y bwriad oedd rhoi cyfle iddynt weld patrymau o weinidogaethau mewn cyd-destunau amrywiol a gwahanol, a chyfle i rai ohonynt, a ddeuai o eglwysi lle nad oedd ffafriaeth i wragedd o weinidogion, i deimlo eu bod nhw'n eitha normal. Estynnwyd y croeso ar y cyd ag Eglwys Bresbyteraidd Cymru a bu eu canolfannau hwythau yn Y Bala a Threfeca yn gartref i'r merched. Fel arall, syrthiodd baich y trefnu ar ysgwyddau Carwyn Siddall a diolch iddo am ei holl waith.

Bu rhai o'n heglwysi ni yn gynnes iawn eu croeso iddynt a bu iddynt werthfawrogi hynny'n fawr iawn. Gofalaeth Bro Llanuwchllyn; Llanfair, Pen-rhys; Tabernacl, Efailisaf a Mererid Mair a chyfeillion Noddfa, Caernarfon

Cyn ymadael â ni, cawsant gyfle i gyflwyno'u hadborth inni a chafwyd sylwadau diddorol a dadlennol ganddynt. Nodaf rai:

1. Ein bod i'w golwg hwythau, yn bobl flinedig.
2. Ein bod yn barotach i sôn am ein hanes nag am ein cynlluniau a'n bwriadau ar gyfer y dyfodol.
3. Roedd gweld cynifer o gapeli wedi eu cylchynu â mynwentydd wedi eu taro'n rhyfedd.

Mae'r pwyntiau yn haeddu amser a sylw, ac mae ynddynt sail i sawl trafodaeth, trafodaethau y mae eu hangen arnom.

Bu cydlynwyr rhaglen cefnogi cenhadaeth (MSP) CWM ar ymweliad â ni, ac mae'n braf nodi fod y rhaglen honno'n dal i noddi y math o waith a welir yn y ffilmiau animeiddiedig a ddangosir maes o law yn y gynhadledd hon.

Bu sawl un ohonom mewn cynadleddau gwahanol gan CWM, y Llywydd a'r darpar Lywydd mewn cynadleddau'n ymwneud â chaethwasanaeth, ac fe glywn ni fwy am hynny cyn diwedd y cyfarfodydd. Mewn cynhadledd i swyddogion ariannol cafodd y trysorydd gyfle i drafod arian, a mwy. Mae'n werth dweud hynny, oherwydd y mae CWM yn dipyn mwy na ffynhonnell o arian. Bu Owain Davies, Elinor Wyn Reynolds a minnau yng nghyfarfod blynyddol CWM Ewrop, a dyna pryd y daethom ni i gysylltiad â Yasmine Rishmawi, a chael ein cyfareddu ganddi. Yr ydym mor llawen o'i gweld gyda ni'r tridiau hyn.

Prin fod angen i mi nodi pa mor werthfawr inni yw perthyn i deulu mor arbennig â CWM.

### Cydenwadol

Mae hynny'n wir, wrth gwrs, am ein perthynas â'r enwadau a'r mudiadau hynny yng Nghymru, a thu hwnt, sy'n cyfoethogi'n byw ac yn atgyfnerthu'n gwaith fel Undeb lled fychan ei faint. Diolch i Dduw am gael perthyn i Cytûn, Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru, Panel Diogelu Cydenwadol, Eglwysi ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon, Cyngor Eglwysi'r Byd, Cymundeb Eglwysi Diwygiedig y Byd, Cyngor Ysgolion Sul, Cymorth Cristnogol, Cymdeithas Annibynwyr y Byd.

### A Rocha

Y gynhadledd fydd yn penderfynu os yw'n perthynas ni gydag A Rocha i egino a thyfu. Galw am ofal dros y greadigaeth yw cenhadaeth y mudiad arbennig hwn. Yr ydym wedi elwa eisoes, trwy waith a chyfeillgarwch Delyth Higgins, y gweithiwr maes yng Nghymru, ar waith y mudiad ac y mae rhai o'n heglwysi wedi cofrestru'n barod fel Eglwysi Eco. Mae'n neges na allwn ni fforddio ei hosgoi.

## Pen-blwydd Hapus – *parhad*

Dwy ganrif yn ôl bellach
Codwyd capel yn y ca'.

*Â ysgrif rwym o hir barhad*
*A hynny am isel bris.*
Dyma'r geiriau ar ei fedd
Tu allan wrth y gris.

O gylch yr hen adeilad
Mae caeau breision, hardd
Hen enwau sydd yn para,
A'u henwyd hwy gan fardd?

Cae Eithin sydd â'i gloddiau
Yn aur fel machlud ha',
Cae Llwybrau a Chae'r Odyn
Rho borthiant ffres i'r da.

Cae Gwair, Tŷ Cwrdd a Brynfa,
Brynhendy yn ei dro
Llwynteg a Waun Bryngolau,
Rhaid cadw rhain ar go'.

Ac uwchlaw y cyfan yma
Fe saif ein capel clud,
Dy ddrysau sy'n agored –
A chroeso sydd o hyd.

Wrth edrych tua'r gorwel
A thonnau gwyllt y môr,
Trai a llanw bywyd
Dawn fynych at dy ddôr .

Yma, fe gawn gysur
Ac o fewn dy bedwar mur
Addolwn, molwn, trown at Dduw
A phrofi'i gariad pur.

A heddiw, yma, dathlwn,
Er holl helbulon byd
Bod capel Pencae'n herio'r drefn,
Dwy ganrif, a saif o hyd.

Yr Adran Gydenwadol

GORFFENNAF 24 2025 RHIF 230

# Croeso Eisteddfod Wrecsam

Ymhen ychydig ddyddiau, bydd yr Eisteddfod Genedlaethol yn agor ei maes ar gyrion Wrecsam i'r cyhoedd ar gyfer wythnos o gystadlu brwd a chyfle i fwynhau a gwerthfawrogi perfformiadau gan ddoniau amlycaf Cymru. Bydd tystiolaeth yr eglwysi hefyd yn rhan o'r arlwy, ac yma mae Aled Davies yn crynhoi'r hyn fydd yn digwydd dros gyfnod yr Eisteddfod yn Wrecsam rhwng 2 a 9 Awst eleni.

**Croeso Pabell yr Eglwysi**
Pabell tystiolaeth yr eglwysi yw hon, dan nawdd Cytûn, gan gofio mai tystiolaeth Gristnogol yr eglwysi lleol sy'n cyfri. Chwiliwch amdanom – rhif yr unedau yw 116–122, a byddwn wedi ein rhestru ar y map gewch chi wrth ddod i mewn i'r maes.

Bydd dros 200 o wirfoddolwyr o blith yr eglwysi lleol yn rhan o'r gwaith o groesawu pobl i'r babell, yn gweini paneidiau ac yn cynnal gweithgarwch dyddiol i blant. Fe fyddwn ni yno rhwng 9 o'r gloch y bore a 6 o'r gloch yr hwyr dros gyfnod o wyth diwrnod i groesawu a chynnig lletygarwch – cadair i orffwys a chyfle am sgwrs ddifyr, paned o de neu goffi (neu ddiod oren), heb anghofio'r Welsh cêcs cwbl hanfodol. Fel arfer, mae 5,000 ohonyn nhw'n cael eu bwyta yn y babell mewn wythnos. A ddim jest fi sy'n eu bwyta nhw! Fe ddaw miloedd i mewn i'r babell i dderbyn o groeso'r eglwysi.

Bob blwyddyn mae'n fraint cael croesawu pawb atom, yn bobl o bob ffydd neu heb ffydd – yr un fydd y croeso i bawb. A chofiwch, os byddwch chi'n dod i gyfeiriad Wrecsam, galwch i mewn! Rydyn ni'n barod i'ch croesawu am sgwrs a phaned, a bydd yna gyfle i brynu llyfr neu ddau a rhaglen lawn o weithgareddau i bob oed. Ymhlith y pigion eleni byddwn yn cofio ac yn dathlu pen-blwydd Cymorth Cristnogol yn 80 oed, 1,700 mlynedd ers Credo Nicea a chanmlwyddiant Deiseb Heddwch yr Eglwysi a gwaith Gwilym Davies. Bydd gennym arddangosfeydd i nodi'r tri digwyddiad hyn.


**Chwilio am baned ar faes yr Eisteddfod?**

**Bydd pabell yr Eglwysi yno i'ch croesawu - gyda gwaith plant, defosiwn dyddiol, stondin lyfrau ac arddangosfeydd.**

Byddwn ar y maes yn ôl ein harfer. Galwch i'n gweld am baned a chroeso.







**Gwaith plant**
Ar gyfer y plant, fe fydd cornel yn llawn gweithgareddau: cyfle i adeiladu model allan o Lego, gyda gwobr ddyddiol o Feibl lliw i'r sawl fydd yn creu'r model gorau. Bydd cyfle i wneud gwaith crefft, chwarae gemau fel Jenga, Knex, Connect 4 a model o Arch Noa. I'r rhai sy'n hoffi gwneud pethau mwy creadigol, bydd cyfle i wneud breichled a pheintio ffenestr liw, yn ogystal â gweithgareddau dyngarol dan ofal Cymorth Cristnogol.

**Yr enwadau a mudiadau eraill**
Mae'r babell yn cynrychioli'r holl enwadau dan ymbarél Cytûn, yn ogystal â mudiadau fel Cymorth Cristnogol, Cymdeithas y Beibl, ARocha a'r Cyngor Ysgolion Sul, a fydd yno i gyfarfod pobl a rhannu am eu mentrau a'u cenadaethau diweddaraf. Bydd cynrychiolwyr o'r enwadau yn galw i mewn, yn Ysgrifenyddion Cyffredinol, Llywyddion a gwirfoddolwyr o'r eglwysi lleol, yn barod am sgwrs dros baned.

Bydd Cymorth Cristnogol, sy'n 80 oed eleni, yno i rannu am sawl project yn ymwneud â gofalu am y greadigaeth ac effeithiau niweidiol newid hinsawdd. Bydd Sian Wyn Rees o Gymdeithas y Beibl yno i sôn am adroddiad diweddar 'Y Diwygiad Tawel' a chynlluniau diweddaraf y Gymdeithas.

Nod y Cyngor Ysgolion Sul fydd cynnal sgyrsiau efo arweinwyr lleol dros Gymru i drafod gwaith cenhadol i blant, er mwyn sefydlu gweithgarwch newydd lle mae ysgolion Sul wedi darfod erbyn hyn. Yn ôl yr arfer, bydd dewis eang o lyfrau ac adnoddau, heb anghofio'r cardiau Nadolig newydd, ar werth gydol yr wythnos.

**Addoli**
Bydd cyfle hefyd i addoli yn ystod yr wythnos. Bob dydd (heblaw dydd Sul)



cynhelir oedfa yn y babell am 11 o'r gloch. Bydd yr oedfaon hyn yng ngofal arweinwyr ac eglwysi o ardaloedd penodol o fewn dalgylch yr Eisteddfod.

Bore Sul, 3 Awst, am 10 o'r gloch cynhelir yr oedfa ym Mhafiliwn y Steddfod, ar thema 'Y Ffin'. Noder y bydd angen tocyn mynediad i'r maes arnoch, a bydd hynny'n caniatáu i chi fynd i'r pafiliwn ar gyfer yr oedfa ac aros ar y maes tan 10.30 y noson honno, os dymunwch. Bydd yr oedfa yng ngofal nifer o bobl y fro, dan arweiniad Jen Eynon a chriw Ysgol Morgan Llwyd. Cofiwch hefyd am y Gymanfa Ganu yn y pafiliwn y noson honno. Bydd angen tocyn arall ar gyfer cael mynediad i'r Gymanfa, a chyfle i glywed Côr y Gymanfa.

Bydd y Cylch Catholig yn falch o'ch croesawu nos Iau, 7 Awst, am 6 o'r gloch i Offeren y Steddfod, a hynny yng Nghadeirlan y Santes Fair, Wrecsam (LL11 1RB), gyda lluniaeth ysgafn i ddilyn. Bydd Eglwys San Silyn yn y dref hefyd yn agored o 1.00 tan 4.00 bob prynhawn, gyda chyfle i fynd ar daith i'r tŵr.

Yn ystod yr wythnos cawn hefyd ambell ddatganiad ar y piano gan Meilir Tomos, a fydd hefyd yn gwerthu ei CD o emynau, gyda'r elw yn mynd at waith Cymorth Cristnogol.

**Lansiadau**
Bydd nifer o lyfrau yn cael eu lansio yn y Steddfod, gan gynnwys rhai ohonynt ar stondin Pabell yr Eglwysi. Ymhlith yr awduron a fydd y cyhoeddi llyfrau newydd y mae Aled Edwards, Aled Jones Williams, Arwel Ellis Jones, D. Ben Rees, Owain Llŷr Evans, Huw John Hughes ac eraill.

*(parhad ar y dudalen nesaf)*

*Croeso Eisteddfod Wrecsam* *(parhad o dudalen 1)*

# Amserlen yr wythnos, wedi ei chasglu gan Cytûn:

Dyma'r digwyddiadau rydym yn ymwybodol ohonynt ar hyn o bryd:

**Dydd Sadwrn, 2 Awst**
11.00 – Pabell Cytûn: Oedfa fer dan arweiniad yr eglwysi lleol
11.30 – Pabell Cytûn: Cyflwyniad byr i lyfrau newydd yr haf – 8 teitl newydd
2.00 – Pabell y Cymdeithasau: Sesiwn 'Heddwch' gan Gymdeithas y Cymod

**Dydd Sul, 3 Awst**
10.00 – Pafiliwn: Oedfa'r Eisteddfod dan arweiniad Jen Eynon a chriw Ysgol Morgan Llwyd
1.00 – Babell Lên: Sesiwn yng nghwmni'r Parchedig Aled Lewis Evans, Wrecsam
4.15 – Pabell Encore: 'Dathlu emynau Godfrey Williams'
7.00 – Pafiliwn: Y Gymanfa Ganu (bydd angen tocyn ar gyfer hon)

**Dydd Llun, 4 Awst**
10.00–4.00 – Pabell Cytûn: Sesiwn creadigol i blant gan griw Explore Science
11.00 – Pabell Cytûn: Oedfa fer dan arweiniad yr eglwysi lleol
11.30 – Pabell Cytûn: *Yng Ngolwg Ffydd* – lansio llyfr newydd gan Owain Llŷr Evans
11.45 – Pabell Cytûn: 'Dyfodol Hyfforddiant Diwinyddol yng Nghymru' – cyflwyniad gan Rosa Hunt a Manon Ceridwen James
12.00 – Pabell Cytûn: Cymorth Cristnogol yn 80 oed – 'Grym anorchfygol gobaith': diolch am 80 mlynedd o weithgarwch ac yna datganiad ar y piano gan Meilir Tomos
1.30 – Pabell Cytûn: *Llwybr Cadfan* – derbyniad a chyflwyniad, a lansio cyfrol newydd gan Elin Owen, Sian Northey a Siôn Aled Owen
3.30 – Pabell Cytûn: Sgwrs a thrafodaeth: 'Ydi pêl-droed yn grefydd arall i ni fel Cymry?' dan ofal Manon Ceridwen James
6.00 – Pabell Cytûn: Gwylnos heddwch dan arweiniad Cymorth Cristnogol

**Mawrth, 5 Awst**
10.30 – Pabell y Cymdeithasau 2: ' "Y Diwinydd o Dre Wrecsam": C. H. Dodd a'i gyfraniad i ysgolheictod Beiblaidd', darlith gan yr Athro Eryl Wynn Davies
10.30 – Pabell Prifysgol Bangor: 'Y Da, y Drwg a'r Deadpool: Ffilmiau Marvel fel Chwedlau Moesol Modern' – darlith gan Dr Gareth Evans-Jones
11.00 – Pabell Cytûn: Oedfa fer dan arweiniad yr eglwysi lleol
11.30 – Pabell Cytûn: *Cyrraedd Bannau* – lansio llyfr newydd gan Aled Edwards, gyda Sian Wyn Rees yn holi'r awdur
12.00 – Pabell Cytûn: Cymorth Cristnogol yn 80 oed – 'Grym anorchfygol gobaith': diolch am 80 mlynedd o weithgarwch ac yna datganiad ar y piano gan Meilir Tomos
12.30 – Pabell y Cymdeithasau: 'Diogelu'r Trysor' – sgwrs gan Eirlys Gruffydd-Evans ar hanes ffynhonnau sanctaidd Cymru
1.30 – Pabell y Cymdeithasau: 'Chwilota yn Neiseb Heddwch Merched Cymru', gydag Angharad Tomos
1.50 – Pafiliwn: Cystadleuaeth 'Canu emyn neu gân o fawl'
2.00 – Pabell Cytûn: Canmlwyddiant Apêl Heddwch yr Eglwysi, sgwrs gan Cynan Llwyd
2.15 – Pafiliwn: Cystadleuaeth Llefaru o'r Ysgrythur
3.30 – Pabell y Cymdeithasau: 'Cofio Tegla', gan Bob Morris, dan nawdd Cymdeithas Hanes yr Eglwys Fethodistaidd

**Dydd Mercher, 6 Awst**
10.30 – Pabell y Cymdeithasau: 'O Forgan Llwyd i Lewis Valentine' – golwg ar emynwyr a charolwyr bro'r Eisteddfod, gan yr Athro E. Wyn James (Cymdeithas Emynau Cymru)
11.00 – Pabell Cytûn: oedfa fer dan arweiniad yr eglwysi lleol
11.30 – Pabell Cytûn: *Reit Rownd*, lansio llyfr newydd gan Aled Jones Williams, gyda Rhys Llwyd yn holi'r awdur
11.45 – Pabell Cytûn: ' Y Diwygiad Tawel' cyflwyniad i'r adroddiad, gan Sian Wyn Rees, Cymdeithas y Beibl
2.00 – Pabell Cytûn: 'Gweddi a gweithred dros Gaza' – i gyd-fynd â'r weithred #YmprydioDrosGaza sy'n cael ei chynnal bob dydd Mercher
4.00 – Pabell y Cymdeithasau: Cyflwyniad gan Gymdeithas y Cymod ar ddydd cofio Hiroshima
6.30 – Tŷ Gwerin: 'Canu yn yr Ysbryd' – cyflwyniad ar ffydd mewn cerddoriaeth, gyda Siân Meinir, Lleuwen Steffan a Dafydd Iwan, dan nawdd Cristnogaeth21







**Dydd Iau, 7 Awst**
11.00 – Pabell Cytûn: Oedfa fer dan arweiniad yr eglwysi lleol
11.30 – Pabell Cytûn: *Dyrys Daith*, lansio llyfr newydd ar newid hinsawdd gan Huw John Hughes yng nghwmni Geraint Tudur, gyda chyflwyniad gan Delyth Higgins ar waith ARocha
11.45 – Pabell Cytûn: Cyflwyniad i'r cylchgrawn *Cristion* yng nghwmni Sian Elin
12.00 – Pabell Cytûn: Cymorth Cristnogol yn 80, 'Grym anorchfygol gobaith' – diolch am 80 mlynedd o weithgarwch, a datganiad ar y piano gan Meilir Tomos yn dilyn
2.00 – Pabell Cytûn: Sgwrs fer ar hanes 1700 mlwyddiant Credo Nicea gan Geraint Tudur

**Dydd Gwener, 8 Awst**
10.30 – Pabell y Cymdeithasau 2: 'Cofio Euros Bowen, Clasurydd Wrecsam': teyrnged i'r bardd-offeiriad Euros Bowen (1904–88) a'i ddiddordeb creadigol ym myd y Groegiaid a'r Rhufeiniaid – darlith gan yr Athro Ceri Davies
11.00 – Pabell Cytûn: Oedfa fer dan arweiniad yr eglwysi lleol
11.30 – Pabell Cytûn: *Bywyd â Phwrpas* – lansio addasiad Cymraeg gan Arwel Ellis Jones o gyfrol Rick Warren, *The Purpose Driven Life*, sesiwn yng ngofal Arfon Jones
11.45 – Pabell Cytûn: Cyflwyniad gan Gymorth Cristnogol: 'Ewyllys Da / Faith Will', ymgyrch gydenwadol cymunroddion sy'n cael ei lansio yng Nghymru am y tro cyntaf
12.30 – Pabell y Cymdeithasau 2: 'Pwytho Heddwch': ymateb creadigol artist i Ddeiseb Heddwch Menywod Cymru, gan Bethan M. Hughes (Archif Menywod Cymru)
1.00 – Pabell y Cymdeithasau: Lansio *Gofal ein Gwinllan, cyfrol 3*, a darlith gan D. Densil Morgan
2.00 – Pabell Cytûn: Derbyniad i longyfarch Gethin Rhys a John Morgans ar eu hurddo i'r Orsedd, ac i ddiolch am eu gwaith dros Cytûn ac eciwmeniaeth
2.00 – Pabell y Cymdeithasau: 'Dod â hedd i garchardai' – sgwrs am waith caplaniaid y Crynwyr, gydag Emma Roberts

**Dydd Sadwrn, 9 Awst**
11.00 – Pabell Cytûn: oedfa fer dan arweiniad yr eglwysi lleol

Edrychwn ymlaen i'ch croesawu i'r babell.

*Aled a Delyth Wyn Davies*
*Trefnyddion digwyddiadau Cytûn*

# Credo Nicea

**Diwygiwyd geiriad y Credo a gytunwyd yn Nicea (325 OC) yng Nghyngor Caergystennin yn 381 OC. Yn gyffredinol, y fersiwn hwn, Credo Nicea-Caergystennin, sydd wedi ei etifeddu gennym ar draws y canrifoedd, yw'r un a ddefnyddir gan y traddodiadau Cristnogol ar draws y byd ac sy'n sail i'r myfyrdodau sy'n dilyn.**

**Sesiwn Un – Cread Duw** – o Ynysoedd y Pilipinas

Ysgrifennwyd gan y Barchg Jewel B. Tamaliuan, Iglesia Filipina Independiente (IFI)

Mae'r Barchg Jewel B. Tamaliuan yn weinidog ordeiniedig yn yr IFI ers wyth mlynedd. Ar hyn o bryd mae'n gweithio fel aelod o'r staff rhaglen yn swyddfa ganolog yr Esgobaeth ac mae'n Ganon yn Eglwys Gadeiriol IFI yn y brifddinas, Manila.

**Yr Eglwys Anglicanaidd yn Ynysoedd y Pilipinas**
Gwlad yn ne-ddwyrain Asia yw Ynysoedd y Pilipinas, ac mae'n cynnwys tair prif ynys: Luzon, Visayas a Mindanao. Prifddinas Ynysoedd y Pilipinas yw Metro Manila. Gwlad amaethyddol ydyw yn bennaf, gyda llawer o'r Ffilipiniaid yn byw mewn ardaloedd gwledig ac yn cynnal eu hunain drwy blannu reis, ŷd, a chnau coco, yn ogystal â gwneud gwaith amaethyddol arall. Ar draws yr ynysoedd y mae llwythau cynhenid sy'n cynnal hunaniaeth ddiwylliannol yr Ynysoedd, er gwaethaf y gwahaniaethu a'r ffaith eu bod yn cael eu gwthio i'r cyrion.

Mae gan y Ffilipiniaid ddiwylliant a thraddodiad unigryw sydd wedi dod o dan ddylanwad gwladychu. Daeth Cristnogaeth i'r wlad yn gyntaf drwy genhadon o Sbaen a aeth yno yn gynnar yn yr 16eg ganrif.

Hybir hawliau, heddwch a chyfiawnder gan yr IFI. Ei chred yw mai'r genhadaeth y'i galwyd iddi gan Dduw yw gweithio yn erbyn 'dad-ddyneiddio' pobl. Mae'r IFI yn byw ei rôl broffwydol fel y mae wedi'i mynegi yn Micha 6:8: 'Gwneud beth sy'n iawn, caru teyrngarwch ac ymostwng i rodio'n ostyngedig gyda'th Dduw.'

Ar hyn o bryd, mae'r USPG yn gweithio mewn partneriaeth ag IFI mewn prosiectau Bywyd Cyflawn a Gofal dros y Cread, sy'n canolbwyntio ar weinidogaeth ymhlith pobl gynhenid.

**Cread Duw**
*Credwn yn un Duw, y Tad hollalluog, gwneuthurwr nef a daear, a phob peth gweledig ac anweledig.*

**Darlleniad o'r Beibl – Genesis 1:27, Genesis 2: 1–7, 15**

[27] Felly creodd Duw ddyn(olryw) ar ei ddelw ei hun; ar ddelw Duw y creodd (hwy); yn wryw ac yn fenyw y creodd hwy.

[1]Felly gorffennwyd y nefoedd a'r ddaear a'u holl luoedd. [2]Ac erbyn
y seithfed dydd yr oedd Duw wedi gorffen y gwaith a wnaeth,
a gorffwysodd ar y seithfed dydd oddi wrth ei holl waith. [3]Am
hynny bendithiodd Duw y seithfed dydd a'i sancteiddio, am mai ar hwnnw y gorffwysodd Duw oddi wrth ei holl waith yn creu.

[4]Dyma hanes cenhedlu'r nefoedd a'r ddaear pan grewyd hwy.

**Hanes arall am y Creu**
Yn y dydd y gwnaeth yr ARGLWYDD Dduw ddaear a nefoedd, [5]nid
oedd un o blanhigion y maes wedi dod ar y tir, nac un o lysiau'r maes wedi blaguro, am nad oedd yr ARGLWYDD Dduw eto wedi
peri iddi lawio ar y ddaear, ac nad oedd yno ddyn i drin y tir; [6]ond
yr oedd tarth yn esgyn o'r ddaear ac yn dyfrhau holl wyneb y tir.
[7]Yna lluniodd yr ARGLWYDD Dduw ddyn o lwch y tir, ac anadlodd yn ei ffroenau anadl einioes; a daeth y dyn yn greadur byw.

[15]Cymerodd yr ARGLWYDD Dduw y dyn a'i osod yng ngardd Eden, i'w thrin a'i chadw.

**Myfyrdod**
Yng nghalon Mindoro Orientalaidd, yng nghanol tirwedd wyrddlas a bryniau braf, y mae cymuned Mangyaidd Sitio Gaang, Panaytayan a Mansalay. Mae'r gymuned gynhenid hon, fel nifer o rai eraill, yn dibynnu ar y tir a'i adnoddau am ei bywoliaeth a'i chynhaliaeth. Nid stori am wytnwch a goroesi yn unig yw eu stori; mae hefyd yn dystiolaeth i'r cysylltiad dwfn rhwng ysbrydolrwydd a stiwardiaeth amgylcheddol.

Mae'r Credo yn ein cadarnhau ni oll fel dilynwyr Crist, 'Yr ydym yn cydnabod mai Duw yw ein Crëwr, "gwneuthurwr nefoedd a daear".' Fe'n geilw hefyd i fod yn stiwardiaid cread Duw. Ceir adlais o hyn yn Llyfr Genesis, lle mae Duw yn ymddiried i ddynolryw y gofal am bopeth byw, gan gyhoeddi yn Genesis 2:15, 'Cymerodd yr ARGLWYDD Dduw y dyn a'i osod yng ngardd Eden, i'w thrin a'i chadw.' Gall y term 'trin' olygu ei weithio neu ei ffermio.

**(I'w barhau)**

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 27 Gorffennaf, am 7:30yb a 4:30yp**
Eich dewis chi o emynau yng nghwmni Megan Williams

***Oedfa Radio Cymru***
**Sul, 27 Gorffennaf, am 12:00yp**
Oedfa dan arweiniad Trefor Jones-Morris, Wrecsam




Cliciwch ar y poster uchod er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i www.gair.cymru

I weld y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru
(Cyhoeddir *Cenn@d* ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

## WRTH Y LLYW #1

Fy ngorchwyl swyddogol gyntaf fel Llywydd Undeb Annibynwyr Cymru (bu gorchwyl answyddogol cyn hynny, ond down yn ôl at honno ymhen brawddeg neu ddwy) oedd mynychu Swper Croeso Cymanfa Gyffredinol y Presbyteriaid yn Llandudno (7–9 Gorffennaf): bwyd blasus, croeso cynnes a chyfle i rannu sgwrs a dweud gair ar ein rhan fel Undeb. Er da hyn oll, gwell oedd gweld y Presbyteriaid wrth eu gwaith; hwythau, fel ninnau yn dod yng nghyd i bwrpas. Da oedd cael gwneud yr un peth ymhlith y Bedyddwyr yn Llundain ar 18–22 Mehefin: *Tarian Ffydd* oedd thema anerchiad y Parchedig Rob Nicholls.

Yn y ddau gyfarfod blynyddol a'r Gymanfa Gyffredinol, roedd pethau tebyg i'w gweld yn digwydd: roedd person neu bobl yn cerdded o gwmpas â chamera: pwysig. Cafwyd trafferthion technolegol, a bu un wrthi'n dawel brysur a chyson llwyddiannus yn cael pethau'n ôl yn gweithio'n iawn er lles pawb: mawr ein diolch.

Hefyd, yn Llundain, Nant Gwrtheyrn a Llandudno roedd ysbryd cadarnhaol i'w deimlo'n symud yn ein plith. Nid bod y gwaith bellach yn haws, nid bod y sefyllfa wedi gwella; rhwng y cŵn a'r brain mae ein gweinidogaeth o hyd, ond, mi deimlais ein bod rywsut, yn dechrau derbyn, ac o dderbyn, dathlu'r 'G' fawr: Gweinidogaeth y Crist byw. Yn ein gweinidogaethau mae inni nawdd un mwy na ni, gwaith Iesu a hyba ein gwaith; ildio i'r hwb hwnnw yw hanfod pob gwasanaeth o'n heiddo. Heb hyn, mae pob cynhadledd a phenderfyniad yn debyg i sgrifennu â dŵr. Dyma ein *Ein tŵr a'n tarian ar ein taith* (J. T. Job; 1867–1938); dyma hefyd, pam mae geiriau Hedd Morgan yn yr Addoliad o Fawl (cyfle i ddathlu cenhadaeth a gweinidogaeth eglwysi EPC), prynhawn Llun y Gymanfa Gyffredinol wedi aros gyda fi: 'Nid sha lawr mae popeth!' Ardderchog ac Amen! Gwaith eglwys leol yw nid gyrru ei phobl sha lawr ar hyd yr hen rigolau, ond eu gwthio a'u tynnu nhw sha lan i ddarganfod drostyn nhw'u hunain gwefr ffydd.

Beth felly am y gorchwyl answyddogol? Galw gydag un o bobl eglwys Minny Street; i nodi'r ffaith fy mod bellach yn Llywydd, ges i dorth o fara cartref i fynd adre' gyda fi: da a diolch!

Onid ydym, y gwahanol enwadau a thraddodiadau, pwysleisiau a thueddiadau, fel bara? Er crasu pob torth mewn ffwrn wahanol, tylinwyd bob un o'r un toes.

Onid yw ffydd yn debyg i dorth o fara? Gellid dweud bod gennym dafell o'r gwir, tafell go helaeth efallai, ond byth mae nyni sy' piau'r dorth!

Un ydym. Gwaith Duw ydym. Gwaith Duw yng Nghrist yr ydym yn ei gyflawni. Cariad Duw yw ein cymhelliad. Ewyllys Duw yw ein safon. Gogoniant Duw yw ein nod.

Mae hyn i gyd yn wir, cyn wired â bod bara'n dorth.

**Owain Llŷr Evans**

*(Yn ystod y misoedd nesaf byddwn yn cynnwys erthyglau cyson gan Owain Llŷr Evans wrth iddo gyflawni ei waith fel Llywydd Undeb yr Annibynwyr. Edrychwn ymlaen yn fawr at ei gyfraniadau. Gol.)*



# Tyrd Ysbryd Glân

Rydym newydd ddathlu Gŵyl y Pentecost gan ryfeddu o'r newydd at y newid syfrdanol ddigwyddodd i'r disgyblion pan gawsant eu llanw â'r Ysbryd Glân. Dros gyfnod o ddeugain diwrnod yn dilyn bore'r Trydydd Dydd ymddangosodd y Crist byw nifer o weithiau i'r disgyblion gan eu dysgu ynghylch diben a phwrpas ei weinidogaeth. Roeddent wedi gobeithio mai ef oedd y Meseia oedd yn mynd i ddefnyddio ei alluoedd unigryw i goncro'r Rhufeiniaid a rhyddhau cenedl Israel o'u gormes. Wrth i Iesu eu hyfforddi daeth y disgyblion i weld mai o'i wirfodd yr aeth Iesu i'r groes i gyflwyno ei fywyd glân a sanctaidd yn iawn dros ein hanwireddau ni. Nid Meseia a ddaeth i ladd ei elynion ydoedd, ond Meseia a ddaeth i farw dros ei elynion – dros bechaduriaid sydd mewn gwrthryfel yn erbyn ewyllys Duw. Caniataodd i ddynion ei hoelio ar groes am ei fod yn ei gariad am gyflawni gweinidogaeth arbennig drosom ni – ein cymodi â Duw.

### Ofn

Er i'r disgyblion wybod bod Iesu'n fyw, er eu bod bellach wedi deall ystyr a phwrpas ei weinidogaeth roeddynt yn dal yn ofnus – yn cuddio y tu ôl i ddrysau clo'r goruwch ystafell. Ni feiddient rannu eu profiad o'r Crist byw â neb na thystio iddo fel Mab Duw a Gwaredwr. Ond ar ddydd y Pentecost digwyddodd rhywbeth yn hanes y disgyblion nad oedd yn ddim llai na gwyrth; daeth y gwan yn gryf, a'r llwfr yn ddewr, a'r ofnus yn hyf. Dyma ddatgloi drysau'r goruwch ystafell ac allan â'r disgyblion yn gwbl ddibetrus yn nerth Ysbryd Duw i wynebu'r byd ac i rannu'r newydd da am Grist yn y byd.



### Swigod

Cefais fwynhad mawr trwy gydol fy ngweinidogaeth yn Seion wrth rannu'r efengyl â'r plant a'r ieuenctid bob bore Sul cyn iddynt ymuno yn yr ysgol Sul. Ar Sul y Pentecost bûm yn chwythu swigod i'r awyr er difyrrwch mawr i'r plant a'r oedolion! Gwelsant mai'r hyn oedd yn achosi i'r hylif anniddorol oedd gen i yn y botel droi yn swigod hardd gyda'u siâp perffaith, eu lliw tryloyw a'u hysgafnder oedd fy anadl i.

### Gweddnewid

Beth ddigwyddodd ar Sul y Pentecost pan oedd dilynwyr Iesu i gyd gyda'i gilydd yn yr un lle yn y goruwch ystafell yn Jerwsalem?

> 'Yn sydyn dyma nhw'n clywed sŵn o'r awyr, fel gwynt cryf yn chwythu drwy'r ystafell lle roedden nhw'n cyfarfod.'
>
> *(Actau 2:2)*

*parhad ar y dudalen nesaf*

# Golygyddol

## Chwalfa

Mae pawb ohonom sydd wedi bod yn rhan o'r bywyd Cristnogol Cymraeg yn ystod y 50 mlynedd diwethaf yn dystion i newid enfawr. Bellach mae'r hyn sy'n digwydd yn ein plith yn chwalfa. Aethom o fod yn niferus, llwyddiannus a dylanwadol i fod yn griw bychan sy'n cael eu hystyried ychydig bach yn od. Syrthiodd niferoedd aelodaeth eglwysi fel un o beli Galileo oddi ar dŵr Pisa ac y mae ein haddoldai'n cau fel rhes o ddominos yn cwympo, y naill ar ôl y llall. Mae'n drist, mae'n dorcalonnus ond ai peth drwg yw hyn? Fy marn i bellach yw ei fod yn rhoi cyfle newydd sbon inni fel pobl Iesu Grist i feithrin bywyd newydd. Gadewch i mi esbonio ychydig.

### Ailasesu

Drannoeth y chwalfa, mae'n rhaid inni oedi, meddwl, trafod, pendroni a gweddïo am arweiniad yr Ysbryd. Ym mha ffordd y dylem weithredu nawr? Pa gynlluniau a blaenoriaethau dylem eu gosod yn eu lle? Er bod y llwybr wedi ei glirio o froc ein gorffennol, rydym angen doethineb i weld beth sydd werth ei gadw ac mae'r camau nesaf yn bwysig. Y mae cymdeithas wedi newid. Rydym ni wedi newid, ac wrth ddod allan o siom ein methiant ymddangosiadol gwelwn bethau'n gliriach.

### Cragen

Dach chi'n gweld, pan mae Cristnogaeth yn troi'n grefydd ddefodol wag, credaf fod Duw yn atal ei law i raddau. Os mai nod amgen ein Cristnogaeth yw cynnal adeilad, edrych ar ôl yr organ, amddiffyn canu pedwar llais, cadw pethau fel yr oeddent – heb unrhyw sôn am Iesu Grist fel Gwaredwr ac Arglwydd buddugoliaethus – nid Cristnogaeth mo hynny ond cragen grefyddol. Gall Cristnogaeth fyw droi'n draddodiad gwag mewn cenhedlaeth os nad oes argyhoeddiad yn ein calonnau ynghyd â phresenoldeb yr Ysbryd Glân.

### Enillgar

Mae Cristnogaeth yn seiliedig ar y ffaith fod pobl ym mhob cenhedlaeth yn dod i gredu yn Iesu, nid o ran etifeddiaeth, na dylanwad teuluol ond o ran argyhoeddiad personol. Darllenwch lyfr yr Actau i weld beth oedd yn digwydd yn y fan honno ymhlith y Cristnogion cynnar. Dywedodd Billy Graham un tro, 'God has no grandchildren.' Pan gollwn y weledigaeth mai rhan bwysig o'n gwaith yw cynorthwyo Duw i ennill pobl newydd i fod yn ddisgyblion i Iesu, rydym wedi colli un o gonglfeini ein ffydd. Rydym wedi dysgu yn ystod y degawdau diwethaf fod hyn yn wir a bod rhaid i'n pwyslais fel Cristnogion droi fwyfwy at efengyl a chenhadu gan fod yn enillgar yn ein gweithgareddau. A phan ddaw disgyblion newydd – ac fe ddeuant – mae'n rhaid i ninnau fod yn barod i'w caru, eu dysgu a'u hyfforddi yn y ffydd.

Credaf ein bod nawr yn camu allan o niwl y chwalfa i gyfnod newydd o antur a menter. Edrychaf ymlaen at y blynyddoedd nesaf i weld beth sydd gan yr Arglwydd ar ein cyfer. Dewch gyda mi, mae dyddiau difyr i ddod.

**Alun Tudur**



## Tyrd Ysbryd Glân – *parhad*

Cafodd bywyd pobl eu newid yn llwyr gan y gwynt nerthol yma fel ag yr oedd fy anadl i wedi newid yr hylif yn swigod hardd. Roedd y gwynt yn cynrychioli'r Ysbryd Glân. Ystyr ysbryd yn wreiddiol yw *anadl*. Rhoes yr Ysbryd Glân nerth i'r disgyblion i bregethu'r efengyl ac i fyw'r bywyd Cristnogol wrth dyfu'n debyg i'r Arglwydd Iesu mewn cariad a daioni. Dyna angen pennaf ein byd heddiw yw dynion a merched yn cael eu mowldio gan yr Ysbryd Glân i dyfu'n debyg i'r Arglwydd Iesu Grist, yr un a aeth 'oddi amgylch gan wneud daioni' (Actau 10:38) ac 'sydd yn ein caru ni' (Datguddiad 1:5).

### Gwaith yr Ysbryd

Ceir sawl agwedd i weinidogaeth yr Ysbryd Glân ond hoffwn nodi mai gwaith cyntaf yr Ysbryd Glân yw dwyn gogoniant i Iesu. Dywedodd Iesu ei hun am yr Ysbryd Glân, 'Bydd ef yn fy ngogoneddu i, oherwydd bydd yn cymryd o'r hyn sy'n eiddo i mi ac yn ei fynegi i chwi' (Ioan 16:14). Rhannodd Selwyn Hughes hanesyn am ei ymweliad ag India mewn rhifyn o *Every Day with Jesus*. Un noson wrth deithio mewn car yn ôl i'r gwesty aethant heibio i orymdaith. Eisteddai bachgen a merch ifanc ar gefn ceffyl ac roedd pobl yn cerdded o boptu iddynt gan ddal lampau i oleuo eu hwynebau. Holodd Selwyn Hughes gyrrwr y car beth oedd yn digwydd. 'Mae'r ddau newydd briodi,' meddai, 'ac mae ffrindiau a pherthnasau'r ddau yn dal y lampau er mwyn i'r golau lewyrchu ar eu hwynebau er mwyn tynnu sylw at y ffaith fod y ddau bellach yn ŵr a gwraig yng nghwlwm sanctaidd priodas. Heno hwy ill dau yw canolbwynt pob sylw, a'r bobl fwyaf pwysig yn y dref.' Esbonia Selwyn Hughes fod hyn yn hynod o debyg i'r Ysbryd Glân. Prif waith yr Ysbryd Glân yw goleuo wyneb Iesu. Duw yn ein byd heddiw yw'r Ysbryd Glân ac yn ddi-os mae yna nerth mawr yn eiddo iddo sydd y tu hwnt i'n mesuriadau ni. Rhaid i ni bledio ar yr Ysbryd Glân i weithio ar ein calonnau a'n meddyliau i oleuo wyneb Iesu i ni, ein galluogi i weld gogoniant ei Berson a chydnabod ein hangen amdano yn Arglwydd ac yn Waredwr ein bywyd.

Wrth weddïo a chydaddoli yn ffyddlon yn oedfaon y Sul mae'r Ysbryd Glân yn cael cyfle i weithio ar ein calonnau, i gryfhau ein ffydd, a'n nerthu ni i dystio i'r Arglwydd Iesu Grist wrth fod yn gyfryngau ei oleuni ef yn y byd.

**Andrew Lenny**

(Allan o *Nodion Seion Aberystwyth*, Mehefin 2025)

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
**Y Parchg Ddr Alun Tudur**
**39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,**
**Caerdydd, CF23 9BS**
***Ffôn:* 02920 490582**
***E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru**

*Golygyddion*

**Y Parchg Iwan Llewelyn Jones**
**Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,**
**Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,**
**LL49 9UE**
***Ffôn:* 01766 513138**
***E-bost:* IwanLlew@aol.com**

**Alun Lenny**
**Porth Angel, 26 Teras Picton**
**Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX**
***Ffôn:* 01267 232577 /**
**0781 751 9039**
***E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk**

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
**Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc**
**Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe**
**ABERTAWE SA7 0AJ**
***Ffôn:* 01792 795888**
***E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru**

***Dalier Sylw!***
**Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.**

# Cyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr 4

*Dyma'r adroddiad olaf o'r cyfarfodydd yn Nant Gwrtheyrn.*



### Dydd Gwener

Oherwydd bod priodas yn y prif adeilad fe symudodd ein cyfarfodydd i'r capel yn y pentref. Agorwyd y gweithgareddau gyda defosiwn o dan arweiniad Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul. Yn dilyn cyflwyniad ysgytwol y wraig o Balesteina bnawn Iau fe newidiodd Aled gyfeiriad y defosiwn. Roedd wedi bwriadu defnyddio hanes a chwedlau'r Nant fel man cychwyn ond penderfynodd gael darlleniadau a gweddïau oedd yn ein tywys i fyfyrio ar yr hyn glywyd ac ar gyfiawnder a heddwch mewn byd llawn casineb a thrais. Cymerwyd rhan gan 5 o gyfranwyr. Darllenwyd emyn newydd a gyfansoddwyd gan Casi Jones, sy'n cynnwys y geiriau:

Am rhy hir y buom dawel
er pob gweithred erchyll wnaed,
bu ein taw yn arf i'w rhyfel,
ar ein dwylo ni mae gwaed.
Maddau inni guddio'th Deyrnas
gwna ni'n ddewrach dros y gwir,
drwy'n geiriau bydded i'r byd gael clywed
dy lais yn glir.



Darllenodd Sian Meinir Salm 139 ar ei hyd mewn ffordd drawiadol iawn. Dywedodd ei bod am gyfnod yn neidio dros rai adnodau (sef 19–22) roedd yn anhapus gyda hwy, ond nawr yn sgil yr hyn sy'n Gaza y mae'n gallu eu darllen. Elinor Wyn Reynolds ddaeth i'r blaen wedyn i ddarllen dameg yr Iesu am y Weddw a'r Barnwr yn Efengyl Luc pennod 18. Yr hyn ddaeth yn amlwg yn y darlleniad oedd taerineb y weddw wrth ofyn i'r barnwr ymateb i'w sefyllfa a gofyn am gyfiawnder. Pa mor daer yw ein gweddïau ni gerbron Duw? Dyfynnodd Gwyn Davies eiriau ingol plentyn ifanc o Gaza cyn i Mererid Mair ddarllen y nodiadau wnaeth yn sesiwn y wraig o Balesteina. Nodiadau oedd yn gwmni fel cerdd yn erbyn casineb ac anghyfiawnder. Dyma sesiwn deimladwy arall gyda'r Ysbryd ar waith yn ein hargyhoeddi o'r angen am gariad a maddeuant yn ein byd.

### Gweithdai

Cafwyd dau weithdy gwerthfawr. Roedd y cyntaf o dan arweiniad, Jeff Williams. Siaradodd am ei brofiadau anodd wrth ymweld â Gaza gyda Chymorth Cristnogol rhai blynyddoedd yn ôl. Roedd aelodau o fyddin Israel yn chwyrn ac ymosodol tuag at Balestiniaid a rhai ymwelwyr. Roedd yr ail weithdy o dan arweiniad Owain Llŷr Evans ac yn ymwneud â masnachu pobl. Anghyfiawnder arall sydd yn digwydd yn fyd-eang ac o dan ein trwynau yn ein cymunedau.

### Cynhadledd 4

Daeth y Cyfarfodydd Blynyddol i ben gydag Argraffiadau'r Llywydd wrth i dymor Jeff Williams ddirwyn i ben. Rhannodd gyda ni rai o'r pethau a welodd ac a glywodd, meddai, 'Arglwydd hanes yw Duw ac yn y diwedd cariad fydd yn ennill y dydd.' Arweiniodd Bethan Jones, Minny Street, ni i bennod 12 o'r Llythyr at y Rhufeiniaid fel myfyrdod i gloi. Yna trosglwyddwyd y llywyddiaeth i Owain Llŷr Evans am y ddwy flynedd nesaf. Diolchwn i Jeff am ei arweiniad a dymunwn yn dda i Owain yn ystod ei gyfnod wrth y llyw.

Diolch i bawb fu'n trefnu a pharatoi ar gyfer y Cyfarfodydd Blynyddol yn enwedig y pwyllgor lleol. Cafwyd cyfarfodydd arbennig gydag ysbryd gobeithiol ac adnewyddol.



## GOFALAETH

**Tabernacl,**
**Hendy-gwyn ar Daf**
**Bethel, Llanddewi Felffre**
**a Triniti, Llanboidy**

Gwahoddir ymholiadau a cheisiadau oddi wrth weinidogion ordeiniedig a myfyrwyr sydd â diddordeb i weinidogaethu'n rhan amser yn yr ofalaeth hon. Byddwn yn dilyn canllawiau Undeb yr Annibynwyr.

Cysyllter â'r Ysgrifennydd am fanylion erbyn Gorffennaf 31ain 2025.

**Meryl James**

**E-bost:**
meryljames534@btinternet.com
**Ffôn:**(01994) 240350
**Ffôn symudol:** 07977 553796

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*